BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 19, 2024

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Tachwedd 19, 2024 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Gerallt Griffith (Cadeirydd) Meurig Ashton, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Geraint Evans, Rhun Prys Jones, Llion Williams. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Robin Jones, Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 15, 2024.

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5 Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 15, 2024.

Eitem 10.a. Rhoddwyd copi o'r llythyr (17/10/2024) anfonwyd i Lowri C. Roberts, Pennaeth Adran Dai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag Ysgol Llanfachreth i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr ateb (18/10/2024) oddi wrth Lowri C. Roberts yn rhoi gwybod mae pryniant y safle mewn llaw gan eu cyfreithiwyr. Mae'r trafodaethau gyda'r eglwys wedi bod yn anodd ond erbyn hyn yn symud ymlaen yn bositif. Mae cynlluniau ar gyfer y safle mewn llaw ac maent am ymgynghori gyda'r gymuned er mwyn cael gwybod dyheadau lleol o'r opsiynhau bydd ar gael.

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr (18/10/2024) oddi wrth Cerys Williams, Rheolwr Prosiect, Adran Tai ac Eiddo trwy law Delyth Lloyd Griffiths. Mae'n rhoi gwybod bod yr Adran wedi derbyn adroddiad cychwynnol i'r safle a bydd gwaith manwl o'r adeilad yn cael ei wneud yn y ddau fis nesaf. Fel mae wedi cael ei drafod, bydd y Swyddog mewn cysylltiad â Delyth i gynnal sesiwn agored yn y gymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (23/10/2024) i Cerys Williams yn rhoi gwybod mae nifer o bartion yn cael eu heffeithio gan ddatblygiad yr Ysgol ac mae angen cael trafodaeth ar y safle. Amgaewyd llythyr (17/10/2024) anfonwyd i Lowri C. Roberts.

Anfonwyd llythyr Cerys Williams i Lowri C. Roberts, Delyth Lloyd Griffiths a'r aelodau.

Llythyr ateb (29/10/2024) oddi wrth Cerys Williams yn rhoi gwybod bydd cyfarfod i drafod y materion yn cael ei drefnu.

Cafodd y llythyr ei anfon i'r aelodau a Delyth Lloyd Griffiths.

Eitem 12.a. Llythyr ateb (22/10/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

a. Mae'r gweithlu wedi cael gwybod i ymgymryd â'r gwaith a bydd yn cael ei wneud yn y dyfodol agos Mae'r Arolygwr Priffyrdd am ail osod y cones sydd wedi malu.

b. Hawl Tramwy Brithdir a Llanfachreth Rhif 8 ger Capel Abergeirw –Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i gynnal arwynebau llwybrau i safon ar gyfer i gyd-fynd a statws yr hawl tramwy cyhoeddus dan sylw, sef llwybr troed yn yr achos hwn gyda hawliau mynediad cyhoeddus ar droed yn unig. Rwy'n ymwybodol bod hawliau cerbydol preifat yn bodoli ar hyd y ffordd fynediad hon ac o'r herwydd ni fyddai'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gynnal a chadw hyd at safon cerbydau a fyddai'n ymddangos yn gyfrifoldeb y perchennog neu bwy bynnag sydd â hawl tramwy preifat dros y llwybr hwn. Mae hyn yn unol â Pholisi Hawliau Tramwy Cyhoeddus mabwysiedig Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (18/10/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys adroddiad 'Ymateb Un Llais Cymru i Ymchwiliad y Senedd i Gynghorau Cymuned a Thref' (63 o dudalennau).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (24/10/202) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith gosod dwy giât a newid camfa ddiffygiol gyda giât i gerddwyr ar Lwybr Ceffyl 66 / Llwybr Droed 68 sydd yn ardal Ystumgwadnau, Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (25/10/2024) oddi wrth Achub Plas Tan y Bwlch, Maentwrog yn gwahodd ni i uno yn eu hymdrech i gefnogi diogelu dyfodol y Plas. Maent angen i ni ystyried ymuno mewn Partneriaeth o Gynghorau Cymuned a Thref yr ardal er mwyn cydweithio i achub y Plas oherwydd mae gennym bwerau ac awdurdod. Mae gwahoddiad i ni fynychu cyfarfod trafod ar ddydd Gwener 1/11/2024 yn Neuadd Bentref Gellilydan am 7:00yh.

d. Llythyr (28/10/2024) (trwy law Rhun) oddi wrth Feithrinfa Seren Fach yn gofyn am gefnogaeth i'w cais am grant i ymestyn yr adeilad.

Penderfynwyd cefnogi'r llythyr (29/10/2024)

Llythyr (8/11/2024) oddi wrth y Feithrinfa yn diolch am ein cefnogaeth.

dd. Llythyr (1/11/2024) oddi wrth Gyngor Cymuned Llanystumdwy yn gofyn i ni, fel ardal lle mae'r Gymraeg yn iaith mwyafrif ei thrigolion, gefnogi eu cynnig i roi gwybod i Lywodraeth Cymru bod adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn bwysig i ddiogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Amgáu mae llythyr i gefnogi'r cynnig a'i anfon i Lywodraeth Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r cynnig.

e. Llythyr (5/11/2024) (trwy law Gerallt Griffith) oddi wrth Guthrie Jones & Jones ynglŷn â chofrestru Neuadd Bentref Llanfachreth a lle parcio ceir i gwblhau Cais Cofrestr Tir. Maent angen gwybod:

1. Os mae Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth yn cynnwys ardal Rhydymain.
2. Os mae Cyngor Llanfachreth yr un fath a Chyngor Cymuned Llanfachreth.
3. Os mae Neuadd Bentref Llanfachreth yn 'non exempt charity' ac yn parhau i fod yn 'charity'.
4. Beth yw enw llawn Henry M. Edwards i roi ar y Gofrestr Tir.

f. Llythyr (8/11/2024) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gorchymyn wedi ei wneud i gwyro Llwybr Ceffyl Rhif 67 er mwyn gwyro'r llwybr oddi ar dir Cae Crwth, Llanfachreth. Amgáu mae copi o'r gorchymyn statudol yn rhoi gwybod rhoddwyd Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar y gorchymyn ar Dachwedd 6, 2024; roedd y gorchymyn yn ddiwrthwynebiad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (11/11/2024 oddi wrth Adran Etholiadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent am arolygu Trefniadau Etholiadol h.y. nifer y cynghorwyr a natur y wardiau.

Cymuned: Brithdir & Llanfachreth
Wardiau: Brithdir, Machreth
Nifer o gynghorwyr: Brithdir = 4, Machreth = 8
Nifer o etholwyr: Brithdir = 276, Machreth 345.

Bydd ymgynghori yn gorffen ar 20/12/2024. Mae manylion yr arolwg a sut i ymateb ar gael ar wefan y Cyngor.

Mi fydd yr Adran yn arolygu Ffiniau Cymunedol ymhellach ymlaen.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (14/11/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen 'Canllawiau am Enw Parthau a Gwefannau'.

Mae gan y Cyngor enw parthau a gwefannau: www.cyngorllanfachreth.cymru a Clerc@cyngorllanfachreth.cymru

h. Llythyr (8/11/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant ar Dachwedd a Rhagfyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (18/11/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd:

1. gwaith ffosio, draenio a chlirio coed yn cael ei wneud ar lwybr rhif 103 wrth ymyl Dolserau.
2. gwaith torri llysyfaint, clirio coed a gosod 3 postyn cyferbwyntio yn cael ei wneud ar lwybr rhif 100 yn Coed Dolgwartheg.

3. Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth ar 2-6/12/2024.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/29D. Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer, gosod ffenestri a drysau newydd ac adnewyddu'r dormer presennol. Nant-y-Gwreiddyn, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/11/2024)

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (22/10/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen 'Model Reoliadau Ariannol 2024'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (23/10/2024) oddi wrth Eisteddfod a'r Celfyddydau. Maent angen cymorth ariannol tuag at Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Margam ym mis Mai 2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Mae angen i'r aelodau cwblhau ffurflen yn rhoi gwybod maent yn derbyn neu yn gwrthod y taliadau £156 tuag at gostau dyletswyddau'r swydd o weithio gartref am y cyfnod 2024/2025.

Cafodd y ffurflen ei gwblhau gan yr aelodau.

ch.. Bil (11/11/2024) am £2,325.00 oddi wrth A.M. Ashton am dorri llwybrau y gymuned (£2,250) ac am dorri a chlirio tyfiant o amgylch y pedwar lloches bws (£75).

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Llythyr (25/10/2024) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylionn cyflog i weithwyr am y cyfnod 2024/25.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cyflog presennol y Clerc yw £13.97 x 18awr x 12mis = £3,017.52 y flwyddyn, ar SCP13. Taliad misol i HMRC oedd: £50.29. Taliad misol i'r Clerc oedd: £201.17.

Mae pwynt SCP13 wedi newid i £14.60 yr awr ddyddiedig o Ebrill 1, 2024.
Bydd y cyflog newydd yn £14.60 x 18awr x 12mis = £3,153.60.
Taliad misol: £3,153.60 / 12 = 262.80.
Taliad misol i HMRC: £262.80 x 20/100 =£52.56.
Taliad misol i'r Clerc: £262.80 – £52.56 = £210.24

Penderfynwyd codi'r cyflog.

dd. Llythyr (1/11/2024 a 7/11/2024)) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.
Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefro 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr (5/11/2024) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 o dan adran 137 (1) a (3) £11.10 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £11.10 x 621 = £6,893.10.

f. Llythyr (18/11/2024) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru . Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefro 'Cais am Nawdd'

ff. Anfonwyd copi o Gyllideb y Cyngor am y cyfnod 2025 – 2026 i'r aelodau.

Cafodd y Gyllideb ei dderbyn.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/10/2024: £1,180.56.
Balans yn y banc ar 29/10/2024: £13,740.70

9. Archwilio

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

1. Datblygiad Ysgol Llanfachreth.
Mae Delyth yn edrych ymlaen yn fawr i gael cyd-weithio gyda'r Cyngor Cymuned i sicrhau cartrefi lleol yn Llanfachreth.
Gofynnwyd i'r Cyngor wneud cais i gael arolwg o anghenion tai lleol gan Hwylusydd Tai Gwledig er mwyn cael gwybodaeth bendant am bwy sydd angen tai lleol a pa fath o dai sydd eu hangen yn Llanfachreth.
Cytunwyd yn unfrydol fod hyn yn syniad da a gofynnwyd i'r Clerc wneud cais ffurfiol am y Gwasanaeth Tai Fforddiadwy, Grŵp Cynefin.

2. Prynu bwyd lleol gan Gyngor Gwynedd.
Mae y cynllun prynu lleol y bu i Delyth ei annog yn y Cyngor yn 2022 wedi cael gwobr, yn 5/11/24, am ei llwyddiant yng Nghaerdydd am natur gymunedol eu cytundebau.

3. Achub Coed y Brenin.
Rhoddwyd diweddariad byr am y bwriad gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gau pob Canolfan Ymwelwyr cyn diwedd Ebrill 2024.
Mae Caru Coed y Brenin yn trefnu diwrnod ymgysylltu yn Neuadd y Ganllwyd rhwng 3.00 a 6.00yh ar 24/11/24.
Croeso i drigolion lleol rhoi eu barn ar ddyfodol Coed y Brenin.
Mae staff Coed y Brenin wedi cael gwybodaeth fod eu swyddi yn dod i ben a does dim gwybodaeth eto am swyddi ar eu cyfer yn y dyfodol.
Mae pryder gan Garu Coed y Brenin fod y llwybrau mwy heriol yn y Ganolfan ddim yn cael eu cynnal a chadw.
Mae Caru Coed y Brenin, sydd yn grwp cymunedol swyddogol, yn creu Cynllun Busnes ar hyn o bryd gyda'r bwriad o redeg y lleoliad yn uniongyrchol.
Roedd 550 o ddefnyddwyr y ganolfan wedi dod i brotestio yng Nghoed y Brenin ar 5/10/24.
Mae economi yr ardal yn ddibynnol iawn ar weithgareddau ac adnoddau y ganolfan yn cael eu cynnal a chadw.

4. Cymhorthfa Cynghorydd.
Cynhaliwyd cymhorthfa ym Mrithdir ar 9/11/24 lle bu etholwyr yn dod i siarad gyda Delyth yn y neuadd a gwneud apwyntiadau i weld eu cynghorydd ar ôl y digwyddiad.

5. Materion Tai
Mae cynnig gerbron y Cyngor Llawn ar 5/12/24 yn gofyn i Senedd Cymru dod yr arfer o gyfnewid tai cymdeithasol i ben.
Mae rhoi y gallu i bawb gael tŷ cymdeithasol yng Ngwynedd yn tanseilio polisi gosod Gwynedd, ac yn lleihâi y stoc tai cymdeithasol sydd ar gael i drigolion yr ardal leol.

12. Materion yr Aelodau

a. Eitem gan Peredur. Mae angen rhoi sylw i gwter sydd tu mewn i giât Doluwchadda, Llanfachreth a'r ffos sydd ar ochr y ffordd. Mae'r gwter a'r ffos wedi cau ac mae angen eu glanhau a'u clirio. Pan mae'n bwrw mae'r dŵr yn gorlifo i'r ffordd a phan mae'n rhewi mae'n beryglus iawn. Yn ogystal, mae yna dwll yn hwyneb y ffordd sydd wedi'u greu gan y dŵr.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi sylw i gwter a'r ffos (5/11/2024).

Llofnod: Dyddiad: